# Cyfarfod Panel y Cadeiryddion - POC(2)-08-04-w

## Dydd Mawrth 9 Tachwedd, 17.55 – 18.35, Ystafell Bwyllgora 2

### Presennol

- Yr Arglwydd Elis-Thomas, Llywydd
- Peter Black, Cadeirydd Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes (ELL)
- Rosemary Butler, Cadeirydd Y Pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chwaraeon (CWLS)
- Janice Gregory, Cadeirydd Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (SJR)
- Christine Gwyther, Cadeirydd Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (EDT)
- Alun Ffred Jones, Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd,Cynllunio a Chefn Gwlad (EPC)
- Ann Jones, Cadeirydd Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (LGPS)
- David Melding, Cadeirydd Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (HSS)
- Janet Davies, Cadeirydd Y Pwyllgor Archwilio (AC)
- Sandy Mewies, Cadeirydd Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol (EEA)
- Paul Silk, Clerc y Cynulliad
- Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau Pwyllgor ac Ymchwil yr Aelodau (MRCS)
- Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu’r Cynulliad (ACS)
- Peter Jones, Cwnsler i Bwyllgorau’r Cynulliad
- Adrian Green, Ysgrifennydd Preifat i’r Llywydd
- Jacqui Bowen, Pennaeth Cysylltiadau’r Cyfryngau, ACS
- Lara Date, Dirprwy Glerc i’r Pwyllgor, MRCS
- Brian Davidge, Pennaeth y Gangen TGCh, ACS
- John Grimes, Clerc i’r Pwyllgor, MRCS

### Ymddiheuriadau

- Gwenda Thomas, Cadeirydd Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal (EOC)

### Cyflwyniad

1. Croesawodd y llywydd bawb i’r cyfarfod.

### Eitem 1 – Cofnodion y cyfarfod blaenorol

1.1 Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 5 Hydref ar ôl eu diwygio. Cytunodd y Panel y byddai’r

cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd.

**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i gyhoeddi cofnodion y cyfarfod ar y rhyngrwyd.**

## Eitem 2 – Materion sy’n codi

2.1 Roedd y panel yn dymuno cyfleu i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau (MRS)eu gwerthfawrogiad o’r gwaith a wnaed ynghylch craffu ar y gyllideb, oedd wedi hyrwyddo ystyriaeth drylwyr ac adeiladol gan y Pwyllgorau.

**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i adrodd i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar sylwadau’r Panel ynghylch craffu ar y gyllideb (a’r papur ymchwil diweddar ar 'Raglen Ddeddfwriaethol y DU 2004-05' – gweler Eitem 8.2 isod).**

## Eitem 3 – Eitemau’r Gadair

3.1 Nid oedd eitemau i adrodd arnynt.

## Eitem 4 - E-ddemocratiaeth

4.1 Arddangoswyd i’r Panel nodweddion fforymau trafod e-ddemocrataidd a gynhaliwyd gan Senedd yr Alban. Roedd disgwyl y byddai’r Cynulliad yn mabwysiadu trefn debyg. Roedd trafodaethau 'Dirwyn' yn gadael i bobl gyfrannu at bynciau gwahanol, gydag eglurhad wrth gyflwyno pob pwnc, a chymedrolid y mewnbwn er mwyn osgoi iaith atgas neu ddifenwol.

4.2 Wrth drafod, nododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- Dylid cael cydbwysedd rhwng y rhyddid i lefaru a rheolaeth dros y llefaru hwnnw, ond i osgoi cael negeseuon atgas yn ymddangos ar wefan y Cynulliad, dylid bwrw golwg dros y mewnbwn cyn ei gyhoeddi yn hytrach nag ar ôl gwneud hynny.
- Nid oedd gwefan gyfredol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hwylus iawn nac yn hawdd ei defnyddio. Roedd bwriad i ddatblygu gwefan ar wahân ar gyfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a fyddai’n rhagori ar yr un bresennol.
- Rhagwelid y byddai rhan e-ddemocratiaeth y wefan yn cael ei chyrchu o’r hafan ac anfonid y cyswllt at bobl drwy’r e-bost.
- Byddai’r e-ymgynghori yn caniatau trafodaeth ehangach na’r un a geid drwy ymgynghoriadau unigol.
- Roedd hefyd berygl y byddai’r e-ddemocratiaeth yn glastwreiddio’r ymgynghori, pe na cheid ymatebion sylweddol gan gyfranwyr allweddol.
- Byddai annog pobl i gymryd rhan yn fwy o her i na chyfyngu ar eu cyfraniadau, a byddai cyhoeddi’r e-ymgynghori yn hanfodol.
- Dylid seilio’r system a fabwysiedir ar arferion gorau gwefannau seneddol eraill, a chwmni sydd â llawer o brofiad ym maes e-ddemocratiaeth fyddai’n darparu’r wefan.

4.3 Byddai'r grw^p prosiect yn ystyried y pwyntiau hyn wrth lunio'r prosiect ac yn y broses dewis contract, ac wrth werthuso llwyddiant y peilot. Hysbysodd Cyfarwyddwr GCC y Panel fod yna gynlluniau i fynd i'r afael â mater y Rhyngrwyd.

**Gweithredu: (1) Byddai'r grw^p prosiect yn ystyried sylwadau'r Panel yn y broses dewis contract. (2) Byddai'r Panel yn derbyn adroddiad ar hynt y peilot e-ddemocratiaeth yn y dyfodol.**

## Eitem 5 – Cofnod air am air o'r Pwyllgorau

5.1. Adroddodd Cyfarwyddwr GCC ar recriwtio staff i ddarparu'r cofnod air am air – byddai tri ymgeisydd yn cael eu cyfweld yn y dyfodol agos.

## Eitem 6 – Y Cyfryngau'n Adrodd ar y Pwyllgorau

6.1 Sicrhawyd cryn sylw oddi wrth y cyfryngau. Nodwyd y sylw a gafodd Swyddfa Gogledd Cymru yng nghyfryngau Gogledd Cymru.

## Eitem 7 – Agenda arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

7.1 Nodwyd bod cyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi'i wahodd i'r cyfarfod nesaf.

7.2 Dyddiadau amodol cyfarfodydd 2005 oedd 25 Ionawr a 22 Chwefror ac e-bostiwyd y rhain i'r Panel.

## Eitem 8 - Craffu

8.1 Nododd y Panel yr wybodaeth yn y papur o'u blaen parthed amryw o faterion craffu.

8.2 Cymeradwyodd y Gadair safon uchel y papur ymchwil diweddar ,a ddarparwyd gan yr MRS, ar y ddeddfwriaeth sylfaenol sydd ar ddod. Cyfeiriwyd at hyn yn atodiad 4 y papur.

8.3 Roedd y sesiwn hyfforddi ar gyfer craffu y cyfeiriwyd ato yn Atodiad 3 wedi bod yn werthfawr iawn i aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ac fe'i cymeradwyid i Aelodau Pwyllgorau eraill.

8.4 Nododd y Panel gofnod y cyfarfod ar 4 Tachwedd rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Busnes a'r Llywydd, i drafod amryw o faterion craffu a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Panel. Roedd ymrwymiad i'r Pwyllgor Busnes ystyried sefydlu Pwyllgor ar draws y Cynulliad i graffu ar y Comisiynydd Plant eto, mewn pryd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mynegodd aelodau'r Panel eu siom nad oedd y cynnig yn cael ei weithredu ar gyfer yr adroddiad blynyddol eleni. Roedd cael Comisiynydd Plant yng Nghymru yn ddatblygiad arwyddocaol i'r Cynulliad a byddai Pwyllgor ar draws y Cynulliad yn ddull newydd a hyblyg o gyflawni gwaith craffu seneddol ar faterion plant.

Eid ymlaen â’r cynnig yn y cyfamser i gyfuno’r Pwyllgorau IGC, ADGO, CC, CCA a LlLGC ar gyfer sesiwn craffu ar y cyd a byddai’r Pwyllgor Busnes yn derbyn cais am sicrhau lleoliad/amser ar gyfer y cyd Bwyllgor hwn.

8.5 Croesawodd y Panel gydsyniad y Prif Weinidog o ran egwyddor i sefydlu Pwyllgor i graffu ar y Prif Weinidog. Eglurodd Clerc y Cynulliad y rhesymau dros ddatgymhwyso amryw o Orchmynion Sefydlog y cyfeiriwyd atynt yn y Gorchymyn Sefydlog drafft ar gyfer y Pwyllgor yn atodiad 2. Cytunodd y Panel ar ddrafft y llythyr a’r Gorchymyn Sefydlog, a anfonid yn awr at y Prif Weinidog.

**Gweithredu: (1) Byddai’r hyfforddiant craffu ar gael i Aelodau eraill y Pwyllgorau. (2) Byddai GPYA yn mynd rhagddo i sefydlu cyd Bwyllgor o Aelodau IGC, CCA, ADGO, LlLGC a CC i graffu ar Gomisiynydd y Plant yn ei adroddiad blynyddol. (3) Byddai’r Llywydd yn trafod ymhellach y cynnig am Bwyllgor ar draws y Cynulliad cyfan gyda’r Gweinidog Busnes yn ei gyfarfod dwyochrog nesaf. (4) Byddai llythyr yn cael ei anfon gan y Llywydd at y Prif Weinidog yn ceisio cydsyniad ffurfiol i fynd ymlaen i sefydlu Pwyllgor ar gyfer craffu ar y Prif Weinidog drwy’r Pwyllgor Busnes.**

## Eitem 9 – Gweithio ar y cyd â’r Pwyllgor Materion Cymreig (WAC)

9.1 Yn y cyfarfod anffurfiol â WAC ar 1 Tachwedd awgrymwyd mai ym maes darlledu y dylai’r fenter cydweithio nesaf fod. Roedd timau Clercio PMC a DyGCh yn ystyried sut y gellid mynd â hyn ymlaen a deall bod DyGCh eisoes wedi cymryd rhywfaint o dystiolaeth.

## Eitem 10 – Unrhyw Fater Arall

10.1 Roedd y Panel wedi cytuno o’r blaen ar ganllawiau diwygiedig ar ‘ddiffinio gweithredu pwyllgorau’,a gytunwyd gan y Pwyllgor Busnes a’i gyhoeddi fel Canllaw’r Llywydd. Dywedai Adran 5 yn y canllaw fod ‘angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Busnes pan fydd pwyllgorau’n dymuno cynnal cyfarfodydd ffurfiol yn y cyfnodau dewisol ar brynhawn Iau’. Fodd bynnag, yn ei gyfarfod ar 19 Hydref, cytunodd y Pwyllgor Busnes na fyddai angen gofyn am ei gymeradwyaeth ar gyfer y cyfarfodydd hyn yn y dyfodol, dim ond ei hysbysu amdanynt. Byddai’n rhaid, fodd bynnag, gofyn am ei ganiatâd pe bai pwyllgorau’n dymuno cynnal cyfarfodydd ffurfiol ychwanegol y tu allan i’w priod gyfnodau.

10.2 Nododd yr aelodau y papur monitro perfformiad.

**Gwasanaethau Pwyllgor ac Ymchwil yr Aelodau**
**Tachwedd 2004**